## ATODLEN 2

Rheoliad 6

### Materion sydd i'w cynnwys yn y cynllun llwybr a'r adolygiad ohono pan fo'r person ifanc dan gadwad

**1.** Enw a chyfeiriad y carchar neu'r llety cadw ieuenctid.

**2.** Lefel a natur y cyswllt a'r cymorth personol sydd i'w ddarparu i'r person ifanc gan yr awdurdod lleol cyfrifol a chan staff y carchar neu'r llety cadw ieuenctid.

**3.** Y trefniadau a wnaed gan staff y carchar neu'r llety cadw ieuenctid ar gyfer addysg a hyfforddiant y person ifanc, gan gynnwys enw a chyfeiriad unrhyw sefydliad addysgol neu sefydliad hyfforddi y bu'r person ifanc yn ei fynychu, neu unrhyw berson arall oedd yn darparu addysg neu hyfforddiant i'r person ifanc yn union cyn ei roi dan gadwad.

**4.** Manylion y modd y diwellir anghenion y person ifanc pan fydd yn peidio â bod dan gadwad, sef yn benodol—

(a) pa un a ddarperir llety neu gymorth arall ai peidio i'r person ifanc gan yr awdurdod lleol cyfrifol, awdurdod lleol arall neu awdurdod lleol yn Lloegr, a

(b) sut y bydd yr awdurdod lleol cyfrifol yn cynorthwyo'r person ifanc mewn perthynas ag—

(i) addysg neu hyfforddiant, neu

(ii) cyflogaeth neu weithgaredd pwrpasol arall neu alwedigaeth.

**5.** Trefniadau a wnaed gan staff y carchar neu'r llety cadw ieuenctid i gynorthwyo'r person ifanc i ddatblygu'r sgiliau ymarferol neu sgiliau eraill sy'n angenrheidiol er mwyn i'r person ifanc fyw yn annibynnol.

**6.** Manylion am anghenion iechyd y person ifanc (gan gynnwys unrhyw anghenion iechyd meddwl) a'r trefniadau a wnaed gan staff y carchar neu'r llety cadw ieuenctid i'w diwallu.

**7.** Y trefniadau a wnaed a'r cymorth sydd i'w ddarparu i alluogi'r person ifanc i ddatblygu a chynnal perthnasau teuluol a chymdeithasol priodol.

**8.** Manylion am hanes personol, argyhoeddiad crefyddol, cefndir diwylliannol ac ieithyddol a tharddiad hiliol y person ifanc a'r trefniadau a wnaed gan staff y carchar neu'r llety cadw ieuenctid ar gyfer diwallu ei anghenion crefyddol, diwylliannol ac ieithyddol.